CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Moeseg a Safonau**
Dyddiad y cyfarfod:	**3 Ebrill 2023**
Teitl:	**Blaenraglen Waith Moeseg a Safonau 2023/24**
Diben yr adroddiad:	**Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor**

Beth mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ei wneud?
Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi swyddogaethau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel a ganlyn:-

- hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr
- cynorthwyo'r Cynghorwyr i gadw at y Cod Ymddygiad
- cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad
- monitro gweithredu'r Cod Ymddygiad, a
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.

Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd roi gollyngiadau, sy'n caniatáu i Gynghorwyr sydd â buddiant mewn eitem benodol o fusnes y Cyngor barhau i gymryd rhan yn y busnes hwnnw.

Efallai y caiff adroddiadau ymchwilio y mae'r Ombwdsmon neu Swyddog Monitro'r Cyngor wedi'u paratoi ynghylch honiadau bod y Cod Ymddygiad wedi ei dorri eu cyfeirio at y Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y gellir penderfynu yn eu cylch.

Mae gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd y cyfrifoldebau uchod mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion.

Mae enghreifftiau o'r math o waith y mae Pwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion yn ei wneud yn cynnwys:

- cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu deunydd hyfforddi ar y Cod, gan gynnwys siart llif sy'n rhoi crynodeb o'r prif ddarpariaethau
- mynd i'r sesiynau hyfforddi ynghylch y Cod ar gyfer y Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned a chymryd rhan ynddynt
- mynd i gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau i arsylwi ar y trafodion
- cyflwyno gweithdrefnau sy'n caniatáu i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd Pwyllgor i gyflwyno cais am ollyngiad yn bersonol
- rhoi cyngor i Gynghorwyr ynglŷn â cheisiadau am ollyngiad

Y Flaenraglen Waith
Bydd Blaenraglen Waith yn eitem sefydlog ar bob un o agendâu'r Pwyllgor. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor adolygu a diweddaru rhaglen waith y Pwyllgor.

Mae Blaenraglen Waith ddrafft ynghlwm i'w hystyried (Atodiad 1)

Argymhellion:

1) ystyried, adolygu a diweddaru'r Flaenraglen Waith ddrafft gyfredol. **(Atodiad 1)**

Enw Cyswllt:	Lisa Evans
Swydd:	Swyddog Craffu a Safonau
Dyddiad yr adroddiad:	27 March 2023
Acronymau:	

Blaenraglen Waith Moeseg a Safonau 2023/24

Dyddiad	Eitem
25 Mai	Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol: Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Hyfforddiant Diweddariad ar Ymdrin â chwynion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Moeseg a Safonau & gweithdrefnau gwrandawiadau Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2021/22 Cynllunio olyniaeth - aelod lleyg Diweddariad - recriwtio Cynghorwyr Cyngor Tref/Cymuned Penderfyniadau'r Ombwdsmon ynghylch y Côd Ymddygiad Y Swyddog Monitro i ddarparu adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion, a lefel eu difrifoldeb
16 Hydref 2022	Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol: Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Hyfforddiant Rheoliadau newydd o ran Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru Aelodaeth Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru/ recriwtio Cynghorwyr Cyngor Tref/Cymuned/ recriwtio aelod annibynnol Adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion Cofnod o'r Camau Gweithredu
25 Ionawr 2023	Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol: Cei Newydd x6

	Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru - Dim Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gwahodd arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol Templed Cydymffurfio Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol Hunanwerthusiad y Pwyllgor Moeseg a Safonau Adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion Cofnod o'r Camau Gweithredu Cynlluniau hyfforddi Cynghorau Tref a Chymuned Canllawiau a Phroses yr Ombwdsmon ar gyfer Cwynion y Côd Ymddygiad Cysoni'r trothwyon ar gyfer rhoddion / lletygarwch ar draws pob Awdurdod yng Nghymru
19 Ebrill 2023	Ystyried ceisiadau am ollyngiad Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Hyfforddiant Diweddariad ar recriwtio aelod annibynnol Penodi Cadeirydd/ Is-gadeirydd Cofnod o'r Camau Gweithredu Adolygu'r datganiad o weledigaeth Adroddiad ar newid i'r ffurflen gollyngiad
28 Mehefin 2023	Ystyried ceisiadau am ollyngiad Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Hyfforddiant

	Adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion Cofnod o'r Camau Gweithredu Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol - eitem sefydlog (ddim o reidrwydd yn cael ei gwahodd i bob cyfarfod) Adroddiad Blynyddol y pwyllgor
15 Tachwedd 2023	
10 Ionawr 2024	
6 Mawrth 2024	